Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 27 Mawrth 2014**

Amser:
**08.50**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8032
pwyllgor.CCLLl@cymru.gov.uk

## Agenda - Dogfennau Ategol

Pecyn Atodol 2

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

2 **Sesiwn ddilynol gyda S4C ynghylch y Rhagolygon ar Gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru (9:00-10:00)** (Tudalennau 1 - 7)

S4C Calon Cenedl
Heart of the Nation

**Nodyn Cefndir S4C i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol cyn sesiwn tystiolaeth 27.3.2014**

## Cefndir

S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (DGC), mae dyletswydd ar S4C i ddarparu ystod eang o gynnwys sy'n amrywiol ac uchel ei ansawdd, gan ddarparu gwybodaeth, addysg ac adloniant, i fod ar gael i'w derbyn yn llwyr neu'n bennaf gan aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Fel DGC sydd wedi bod yn gwasanaethu Cymru gyfan ers 1982, mae gwasanaeth S4C yn amcanu at adlewyrchu bywyd y genedl a'i chymunedau. Mae gwylwyr yn disgwyl i S4C ddarparu gwasanaeth cyhoeddus cynhwysfawr, gan gynnig yr ystod lawn o genres rhaglenni, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, rhaglenni dogfen, drama, adloniant, chwaraeon, addysg a rhaglenni plant.

Mae S4C yn gyhoeddwr-ddarlledwr yn yr ystyr bod y sianel yn comisiynu cynhyrchwyr annibynnol – o Gymru yn bennaf – i wneud y mwyafrif o'i rhaglenni. Mae'r BBC hefyd yn darparu isafswm o 10 awr o gynnwys yr wythnos am ddim ar gyfer S4C o dan statud – mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth **Newyddion**, yr opera sebon hirhoedlog **Pobol y Cwm**, a pheth o'r arlwy ym myd chwaraeon a digwyddiadau.

Fel DGC – yn hytrach na darlledwr gwladol – mae annibyniaeth weithredol a golygyddol yn hanfodol i allu S4C i weithredu'n gwbl ddiduedd ac yn annibynnol o ddylanwadau llywodraethol, gwleidyddol a dylanwadau eraill. Mae rôl arbennig S4C i gyflenwi rhaglenni a chynnwys Cymraeg o ansawdd uchel ar gyfer ei chynulleidfaoedd yn hollbwysig – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn llai rhugl, yn ddysgwyr neu'n ddarpar ddysgwyr – a'r rheiny'n cael effaith ehangach trwy ddarparu gwasanaethau isdeitlo a botwm coch ar draws pob platfform.

## Ariannu ac Effaith Economaidd S4C

### Ariannu

Er mwyn sicrhau bod S4C yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr o ansawdd uchel, ac er mwyn diogelu annibyniaeth S4C fel darlledwr cyhoeddus mae ymrwymiad i ariannu hir dymor a sicrhau lefel ariannu digonol am gyfnod estynedig yn greiddiol.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddyletswydd i sicrhau bod S4C yn derbyn "cyllid digonol" i'w galluogi i gyflawni ei chylch gorchwyl a darparu ei gwasanaethau cyhoeddus. Mae cyfrifoldeb y Llywodraeth am, a'i hymrwymiad i gyllid ar gyfer S4C yn dyddio'n ôl i ddechrau S4C ym 1982. Cafodd y fformwla cyllido statudol gwarantedig blaenorol ei ddiddymu ym 2011 a'i ddisodli â dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau "cyllid digonol" gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Dros y cyfnod ers 1982, mae ffynhonnell cyllid S4C wedi amrywio rhwng canran o refeniw hysbysebu cwmnïau ITV ledled y DG yn y dyddiau cynnar (a oedd yn debyg i'r trefniadau ar gyfer Channel 4 pan gafodd ei lansio) i gymorth grant gan y Swyddfa Gartref ac, yn y pen draw, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a bellach cymysgedd o gyllid gan DCMS, Ymddiriedolaeth y BBC ac incwm masnachol a gaiff ei greu gan S4C. Er gwaethaf y newidiadau i'r ffynhonnell a'r mecanwaith cyllido dros y ddeng mlynedd ar hugain ddiwethaf, mae'r darpariaethau statudol wastad wedi amlinellu'r gofyniad ariannol i alluogi S4C i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel.

Nes cyhoeddi setliad Ffi'r Drwydded yn 2010, roedd cyllid S4C yn dod yn bennaf o gymorth grant gan Lywodraeth y DG. Yn dilyn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DG yn 2010, cafwyd toriad yng nghyllideb S4C dros gyfnod o bedair blynedd sy'n gyfwerth mewn termau real â gostyngiad o 36%. Fe wnaed newidiadau hefyd i'r ffynhonnell cyllido. Am weddill cyfnod Siarter gyfredol y BBC ac ers mis Ebrill 2013, mae'r mwyafrif o gyllid S4C bellach yn dod o Ffi'r Drwydded trwy Ymddiriedolaeth y BBC. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae Cytundeb Gweithredu newydd rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC mewn grym, sy'n gwarantu annibyniaeth weithredol, rheoli a golygyddol S4C, ac sydd hefyd yn rhoi atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC am y modd y defnyddir arian o Ffi'r Drwydded.

Mae'r Cytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnwys toriadau pellach o tua 1% y flwyddyn yn incwm S4C o ffi'r drwydded ym mlwyddyn ariannol 2015-16 a 2016-17.

Cytunwyd y bydd y BBC yn cyfrannu'r cyllid canlynol o Ffi'r Drwydded i S4C:

2013-14 £76.3m
2014-15 £76m
2015-16 £75.25m
2016-17 £74.5m

Mae dyletswydd statudol ar Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DG i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C, ac o dan yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr cyfredol mae wedi ymrwymo elfen o gyllid i S4C, er bod yr elfen hon wedi gostwng yn sylweddol ac wedi'i gwarantu tan fis Mawrth 2016 yn unig. Yn ogystal â hynny, cafodd toriadau pellach o 1% yn 2013 a 2% yn 2014 eu cyhoeddi yn Natganiad yr Hydref 2012, gyda thoriadau pellach yn cael eu cyhoeddi wedyn yn Natganiad Cyllideb y DG yn 2013 – toriad ychwanegol o 1.06% yn 2013 ac 1.09% yn 2014.

**Effaith S4C ar Economi Cymru**

Yn 2012 buddsoddwyd 77% o incwm cronfa gyhoeddus S4C ar raglenni wedi eu comisiynu, (gyda 19% yn cael ei wario ar gostau'n ymwneud â'r gwasanaeth rhaglenni a dim ond 4% ar gostau gweinyddu a gweithredu). Mae'r arian a fuddsoddir yn y gwasanaeth rhaglenni yn arian a drosglwyddir i'r sector breifat. Mae'r model yma wedi arwain at sector cynhyrchu annibynnol sy'n gryf, yn arloesol, sydd gyda'r gorau yn y byd, ac sydd wedi tyfu ochr yn ochr â S4C ers dechrau'r sianel ym 1982. Daeth S4C â dros £2.2bn o arian i economi Cymru dros y 30 mlynedd diwethaf, ac mae'r sianel yn parhau i gael effaith sylweddol ar yr economi.

Dangosodd dadansoddiad diweddar gan Arad Research (Mehefin 2013)

- **Bod buddsoddiad S4C o £63.7m yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2012 yn gyfrifol am greu gwariant ychwanegol o £60.5m yn economi Cymru a chyfanswm effaith economaidd ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru o £124.3m.**
- **Bod pob punt a fuddsoddwyd gan S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn werth bron i £2 (£1.95) i economi Cymru yn ystod 2012.**

Yn dilyn y newidiadau i drefniadau cyllido S4C a gostyngiad yn lefel yr ariannu, mae S4C wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni arbedion. Mae'r rhain yn cynnwys dau gylch colli swyddi a gostyngiad mewn staff, c. 25%, gostwng cost cyfartalog ei chynnwys am bob awr o £16,374 yn 2009 i £11,743 yn 2012, a'r penderfyniad anodd i derfynu'r gwasanaeth manylder uwch Clirlun ym mis Rhagfyr 2012. Mae penderfyniadau o'r fath wedi eu gwneud gyda'r nod o sicrhau'r gwerth gorau posib am arian gan geisio lleihau i'r eithaf yr effaith y bydd arbedion yn eu cael ar gynulleidfa S4C a chynnwys ar y sgrîn. Mae'n debygol nad felly y byddai hi gyda gostyngiadau yn ein cyllid yn y dyfodol, gan y

byddai unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyllid yn cael effaith andwyol ar y gyllideb cynnwys ac felly yn cael impact sylweddol o bosib ar y sector annibynnol a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

**Mesur Perfformiad, Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian**

Mae'r Awdurdod wedi datblygu ystod eang o fesuryddion perfformiad sy'n cynnwys ffigyrau gwylio a mesuryddion ansoddol sy'n cyflwyno darlun ehangach o ddefnydd ac effaith gwasanaethau S4C. Mae llwyddiant heddiw yn cael ei ddehongli gan ddefnyddio cyfuniad o ffactorau gan gynnwys cyrhaeddiad y gwasanaeth, effaith economaidd, gwerthfawrogiad y gynulleidfa, ymddiriedaeth, darpariaeth lwyddiannus i ddysgwyr, rhaglenni plant, a chael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.

Mae'r naw mesur perfformiad a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol, sydd wedi ei ddosbarthu yn barod i'r Pwyllgor, yn rhoi asesiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaeth S4C yn ystod 2012. Dangosant fod gwasanaethau S4C, er gwaetha'r heriau a wynebwyd, yn parhau i gael eu gwerthfawrogi gan y gynulleidfa a bod S4C yn parhau i weithredu mewn dull effeithlon gan sicrhau gwerth am arian.

Mae effeithlonrwydd a gwerth am arian yn flaenoriaethau allweddol i S4C, ac nid mewn cyfnod o gynni ariannol yn unig. Mae cost yr awr cynnwys a gomisiynir gan S4C ar gyfartaledd wedi disgyn o ychydig dros £52,000 yn 2009 i £37,000 yr awr yn 2012, gyda chost yr awr holl ddarllediadau S4C wedi gostwng o ychydig dros £16,000 i ychydig dros £11,000 yn 2012. Mae'r rhain yn ostyngiadau sylweddol, a gostyngiadau y mae'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi gallu eu gwireddu ar gyfer S4C. Bydd effeithlonrwydd a gwerth am arian yn parhau i gael ei sgriwtineiddio er mwyn galluogi S4C i flaenoriaethu buddsoddi yn y sector gynhyrchu. Wedi dweud hynny, mae'r gwelliannau sylweddol bellach wedi eu canfod ac mae'n debygol y bydd unrhyw welliannau pellach ar raddfa wahanol.

**Adleoli**

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb fanwl, cyhoeddwyd ar 14 Mawrth 2014 bod Awdurdod S4C wedi cymeradwyo cynllun i fynd â phencadlys y sianel i Gaerfyrddin erbyn 2018. Penderfyniad mewn egwyddor yw hwn, ac mae'r penderfyniad yn amodol ar ddod i gytundeb ffurfiol gydag arweinwyr y cais yng Nghaerfyrddin. Roedd S4C wedi gofyn i ddarpar bartneriaid i edrych ar sut bydd adleoli S4C yn sbardun i greu budd i'r iaith, i ddiwylliant ac i economi'r ardal, gan nodi y byddai'n rhaid i unrhyw symud fod yn gost niwtral dros gyfnod. Mae cais Caerfyrddin yn un trawsnewidiol, a'r gobaith yw y bydd y ganolfan newydd sbon a gynigir yn creu pwerdy ieithyddol, diwylliannol ac economaidd newydd ac yn darparu budd i wasanaeth S4C – yn greadigol ac yn weithredol. Mae nifer o sefydliadau eraill eisoes wedi dangos diddordeb mewn rhannu'r safle ac mae'r camau nesaf yn y prosiect wedi cychwyn.

Cymeradwyodd yr Awdurdod hefyd yr egwyddor o gydleoli elfennau o waith S4C gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Bydd trafodaethau'n parhau am hyn gyda'r BBC – gyda'r penderfyniad terfynol yn amodol ar ddod i gytundeb gyda'r BBC.

**Partneriaethau**

Mae partneriaethau yn greiddiol i S4C. Mae'r sianel yn ffurfio partneriaethau creadigol gydag sefydliadau, mudiadau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru – a thu hwnt – er mwyn creu'r cyfleoedd gorau posib, y cynnwys gorau posib i'r gynulleidfa ac er mwyn sicrhau ein gwerth cyhoeddus. Bellach mae gan y sianel drefniadau partnera ffurfiol gyda nifer o sefydliadau blaenllaw eraill – gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Urdd, FILMCLUB Cymru, It's My Shout a Theatr Genedlaethol Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu cyd-weithio ar raglenni fel **Y Gwyll** (Coleg Cerdd a Drama, Prifysgol Aberystwyth, Croeso Cymru, Darganfod Ceredigion), **Y Plas** (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), gyda'r

Cyngor Llyfrau o gwmpas y gyfres **Chwe Nofel** a **#dathludarllen**. Mae ein prosiectau i bobl ifanc – **DymaFi** gyda'r Comisiynydd Plant, yr Urdd, Cwmni Da, a'r Ffermwyr Ifanc, a **Hacio'n Holi**, gydag ITV Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o ysgolion ledled Cymru – hefyd wedi cynnig gwerth a chyfloedd i'n cynulleidfa ac agoriadau i leisau newydd.

## Perthynas gyda'r BBC

Mae cyd-weithio agos rhwng y BBC ac S4C trwy'r Cytundeb Gweithredu a'r Bartneriaeth Strategol. Mae'r Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C a'r Ymddiriedolaeth yn gosod allan y cyfraniad ariannol o Ffi'r Drwydded sy'n dod trwy law'r Ymddiriedolaeth hyd at 2016/17. Mae'r cytundeb hefyd yn nodi'r trefniadau atebolrwydd sydd wedi eu cytuno ar gyfer adrodd ar ddefnydd o arian Ffi'r Drwydded. Yn ogystal, trwy'r Cytundeb fe sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth gyda'r bwriad o hyrwyddo cyd-weithio strategol rhwng S4C a'r BBC.

Mae'r Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C, a gytunwyd ym mis Tachwedd 2012, yn ymwneud â darpariaeth rhaglenni'r BBC i S4C sy'n deillio o ofyniad statudol ar y BBC i ddarparu lleiafswm o ddeg awr yr wythnos am ddim i S4C ac mae'n gosod allan gwerth ariannol y cyfraniad, sef £19.4m am y blynyddoedd 2013/13, 2014/15, 2015/16 a 2016/17. Mae'n werth nodi hefyd fod ystod y Bartneriaeth yn fwy eang nag ariannu yn unig, ac mae'n cynnwys cyd-gynllunio mewn perthynas ag anghenion rhesymol Awdurdod S4C.

Gyda mwyafrif incwm cyhoeddus S4C bellach yn dod o Ffi'r Drwydded, bydd Siarter nesaf y BBC - a'r broses o negydu honno - bellach â pherthnasedd creiddiol i ddyfodol S4C. O ganlyniad, bydd angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod llais y sianel, a Chymru, yn cael eu clywed yn glir o fewn y broses yma.

## Digidol

Gyda'r byd darlledu bellach yn un aml-blatfform, a chynulleidfaoedd yn gynyddol eisiau gwylio cynnwys ar adeg ac ar ddyfeisiau o'u dewis eu hunain, mae'r elfen ddigidol yn un hanfodol i bob darlledwr o ansawdd. Mae gwasanaeth S4C wedi esblygu, gyda'r sianel bellach yn arloesi yn y maes digidol. O wasanaeth Clic, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol o 1.1m o sesiynau gwylio yn 2009 i 2.8m yn 2012, gyda'r cynnydd yn parhau yn 2013 ac eto eleni, i gronfa ddigidol i annog arloesedd sydd wedi arwain at bartneriaethau llwyddiannus fel app yr Urdd a'r app a ddefnyddiwyd adeg y Sioe Frenhinol, i e-lyfrau i gyd-fynd â rhaglenni plant, a'r gêm gonsol gyntaf yn y Gymraeg – **Enaid Coll** – mae S4C ar flaen y gâd wrth sicrhau bod y gynulleidfa yn cael cynnig y cynnwys gorau posib.

Mae gwasanaeth trydar **Ti,Fi a Cyw** yn galluogi rhieni sy'n dysgu Cymraeg i fwynhau rhaglenni Cyw gyda'u plant, ac yn ogystal â bod yn bartner yng nghynllun HWB Llywodraeth Cymru, mae S4C hefyd yn cyd-weithio gyda chynllun LIFE yn Abertawe ac yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu drwy ddefnyddio technoleg newydd.

## Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru/Ail Adroddiad Silk

Mae S4C yn nodi argymhellion ail adroddiad Silk a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2014.

*A. 19 Dylai rheoleiddio darlledu barhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.*
*A. 21 O ran S4C, rydym yn argymell:*
- *a. o fewn y fframwaith bod rhan fwyaf o'r cyllid yn dod o ffi'r drwydded, dylai'r cyfrifoldeb am ariannu elfen gwariant cyhoeddus S4C gael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac*
- *b. yn y cyfamser, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig cael cytundeb Llywodraeth Cymru i benodiadau aelodau Awdurdod S4C.*

Rydym yn ddiolchgar i'r Comisiwn am roi ystyriaeth i ddyfodol S4C fel rhan o'u gwaith. Mae S4C yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau perthynas gref gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Llywodraeth Cymru, ac rydym am barhau i gynnal ein perthynas gyda'r ddwy lywodraeth wrth inni wynebu heriau'r dyfodol. Fe fyddwn ni'n parhau i drafod gyda'n rhan ddeiliaid gyda'r bwriad o sicrhau bod S4C yn cael ei hariannu'n ddigonol, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Wrth ymateb i gais am dystiolaeth gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yn 2013, nododd S4C y byddai angen i wneuthurwyr polisi ystyried nifer o elfennau pe bai'r maes polisi'n cael ei ddatganoli, gan gynnwys deddfwriaeth, safonau cynnwys, rheoli a rheoleiddio sbectrwm, rheoleiddio technegol a hysbysebion. Mae rôl amlwg gan Ofcom o ran rheoleiddio sbectrwm, safonau technolegol a chynnwys gwasanaethau darlledu cyhoeddus drwy'r DG. Y tu hwnt i'r DG, mae cyfarwyddebau'r UE, megis AVMS, hefyd yn berthnasol i Gymru.

**Deddfwriaeth**

Trwy Ddeddfau Seneddol y mae newidiadau pwysig wedi eu gwneud yn draddodiadol i'r fframwaith ddarlledu yn y DG. Felly y bu hi, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu a gwneud diwygiadau i Channel 4 a S4C ers 1982. Caiff cylchoedd gorchwyl y sefydliadau hyn a natur a dyletswyddau eu cyrff llywodraethu yn ogystal â darpariaeth ar gyfer eu cyllido trwy wahanol ddulliau (gweler uchod) eu nodi mewn statud. Wrth ystyried dichonoldeb datganoli darlledu, mae angen ystyried canlyniadau a chyfyngiadau posib gwahanu deddfwriaeth ar gyfer darlledu yng Nghymru oddi wrth gyd-destun y DG.

Mater i wneuthurwyr polisi yw'r cwestiwn a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am reoleiddio ac ariannu S4C. Fodd bynnag, dylai sicrwydd a gwarant o gyllid digonol, annibyniaeth weithredol a golygyddol, a sylfaen gref i allu gweithredu'n gystadleuol, fod yn ffactorau pwysig wrth ystyried y cwestiwn yma.

Mae gofynion atebolrwydd yr Awdurdod wedi eu gosod mewn statud ac yn y Cytundeb Gweithredu rhwng yr Awdurdod ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae statud yn nodi fod S4C yn atebol i'r Senedd yn San Steffan, ac yn gosod rheidrwydd ar yr Awdurdod i gyflwyno, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol, adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon am ei waith gerbron y Senedd bob blwyddyn. Mae'r atebolrwydd yma hefyd wedi golygu rhoi tystiolaeth i bwyllgorau dethol a bod yn destun adolygiadau gan bwyllgorau dethol.

Mae'r Cytundeb Gweithredu newydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer atebolrwydd yr Awdurdod am y defnydd o arian Ffi'r Drwydded a ddarperir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r ddarpariaeth yma yn cyd-fynd â, yn hytrach na disodli, y ddarpariaeth statudol ac mae'n cynnwys paratoadau'r Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth ar gyfer asesiad blynyddol o berfformiad gwasanaethau S4C yn erbyn darpariaeth y Cytundeb yn ogystal â rhoi'r gallu i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i adolygu gweithgareddau S4C yn yr un modd â rhai'r BBC. Mae'r prosesau sydd wedi eu llunio ar gyfer cyflawni gofynion y Cytundeb, ynghyd a'r craffu sydd wedi bod hyd yma ar berfformiad gwasanaethau S4C gan Bwyllgor Cynulleidfaoedd yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol arfaethedig ar gyfer 2013, yn brawf bod S4C yn gallu addasu a datblygu dulliau newydd o gyflwyno atebolrwydd mewn sefyllfaoedd lle mae ei hannibyniaeth weithredol a golygyddol wedi eu gwarchod.

Mae dyhead yr Awdurdod i sicrhau atebolrwydd priodol gerbron aelodau etholedig wedi golygu rhoi tystiolaeth i bwyllgorau yn San Steffan ac, er nad oes gofyn statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Llywodraethu S4C**

Mae dyletswyddau a phwerau Awdurdod S4C yn deillio o statud, gan gynnwys darpariaethau Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf Cyfathrebiadau 2003, ynghyd â darpariaethau cyllido perthnasol sy'n deillio o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd statudol i ymlynu wrth godau darlledu perthnasol a chwotâu Ofcom mewn perthynas â sawl agwedd ar reoleiddio S4C.

Mae Awdurdod S4C yn atebol am allbwn S4C a rheolaeth briodol arni. Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn darparu ystod eang o raglenni sy'n amrywiol ac o ansawdd uchel, gan ddarparu gwybodaeth, addysg ac adloniant, a'r rheiny ar gael i'w derbyn yn llwyr neu'n bennaf gan aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Mae Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi gosod trefniadau yn eu lle i sicrhau atebolrwydd am gyllid o Ffi'r Drwydded.

Ble bynnag y bo'r cyfrifoldeb ffurfiol ar gyfer S4C o fewn llywodraeth, bydd dwy elfen hanfodol i'w hystyried er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

Y cyntaf o'r rhain yw ariannu digonol, a'r ail yw annibyniaeth olygyddol a gweithredol.

Ar hyn o bryd, mae dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod ariannu digonol ar gael i S4C i gyflawni ei swyddogaethau; gall hyn fod naill ai drwy ddarparu cyllid o'r fath yn uniongyrchol o gronfeydd y Llywodraeth, neu drwy sicrhau/neu ddibynnu ar ymrwymiad arian o ffynonellau eraill neu cyfuniad o'r ddau. Ar hyn o bryd, mae c. 90% o ariannu S4C yn deillio o Ffi Trwydded y BBC o ganlyniad i gyfuniad o'r cytundeb ym mis Medi 2010 rhwng Llywodraeth y DG ac Ymddiriedolaeth y BBC, a'r cytundeb tridarn rhwng Awdurdod S4C, DCMS ac Ymddiriedolaeth y BBC. Darperir 10% yn uniongyrchol gan DCMS (y tu allan i fformiwla Barnett). Fel a nodwyd uchod, ymddengys y bydd yr angen i sicrhau cyllid digonol ar gyfer S4C yn fater y bydd yn rhaid ei ystyried yn y trafodaethau sydd yn ymwneud â siarter y BBC ar lefel y DG.

Gan ystyried rôl Ymddiriedolaeth y BBC fel ceidwad Ffi'r Drwydded, angen S4C yw byddai'r Siarter yn cynnwys ymrwymiad i ariannu S4C, ar lefel ddiffiniedig, drwy gyfnod y Siarter nesaf. Mae diddordeb – a chefnogaeth – Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau canlyniad o'r fath, yn debygol o fod yn allweddol.

Mae c. 10% sy'n weddill o gyllid y llywodraeth (c. £6.7m) hefyd yn elfen bwysig iawn, a byddai S4C yn pryderu'n fawr am unrhyw ostyngiad iddi. Ar hyn o bryd, mae'r ffaith bod cysylltiad rhwng yr elfen hon, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda'r mater ehangach o sut y darperir darlledu cyhoeddus ledled y DG, yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd anghenion darlledu cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael yr un ystyriaeth o fewn trafodaethau ehangach - fel sydd wedi digwydd ers 1982.

Mae'r syniad o amnewid cyllid Llywodraeth Cymru, yn llwyr neu yn rhannol, am y gyfran a ddaw o'r DCMS yn ddiddorol ac fe all fod yn werth ystyried gan wneuthurwyr polisi, cyn belled ag y bo eglurder at ba ddibenion y dylid defnyddio'r arian (h.y. dibenion statudol S4C) a bod annibyniaeth olygyddol a gweithredol S4C yn cael eu parchu.

Hyd yn oed heb gyswllt ariannu o'r fath, mae S4C yn awyddus i barhau i ddatblygu ei phartneriaethau gydag adrannau Llywodraeth Cymru a chyrff a ariennir ganddi i sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl Cymru o weithgareddau sy'n adlewyrchu amcanion a rennir ganddynt.

Cynhelir y broses o benodi aelodau i Awdurdod S4C y cyfeiria argymhellion Silk atynt, ar y cyd ar hyn o bryd. Bydd y panel cyfweld ar gyfer penodiadau arfaethedig i'r Awdurdod yn cynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

**Casgliad**

Mae gan Gymru draddodiad cryf ym myd darlledu yn nwy iaith y genedl, diwydiannau creadigol o safon fyd-eang a sector cynhyrchu annibynnol hynod fedrus. Er gwaethaf heriau'r hinsawdd gyfredol – hyd yma mae S4C wedi rheoli'r toriadau i'w chyllid gan geisio gwarchod gwasanaeth y sianel fel blaenoriaeth. Mae'n debygol nad felly y bydd hi os caiff y cyllid ei ostwng ymhellach.

Mae S4C yn gwerthfawrogi'r berthynas gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chyda Llywodraeth Cymru, ac yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Fawrth 27ain 2014.

Am ragor o fanylion, cysyllter â:
Catrin Hughes Roberts,
Pennaeth Partneriaethau
catrin.hughes.roberts@s4c.co.uk